

Ga' i ddweud stori wrthyt ti?

Cyflwyniad

Sesiwn 1. Ga' i ddweud stori wrthyt ti?

Sesiwn 2. Cymhelliant

Sesiwn 3. Adrodd fy Stori – Adrodd Stori Duw

Taflen Wybodaeth (1), (2) + (3)

Atodiad (1) + (2)

Cyflwyniad

Ydych chi erioed wedi cael y profiad o lyncu'ch tafod wrth dderbyn gwahoddiad i ddweud rhywbeth am eich ffydd?

Ydych chi erioed wedi difaru colli 'cyfle euraidd' i ddweud wrth rywun pam mae Iesu Grist yn bwysig i chi?

Os felly, nid chi yw'r unig un. Mae'n debyg bod POB Cristion wedi cael y profiad hwn. Roedd Bill Bright, sylfaenydd Campus Crusade (mudiad a sefydlwyd i arfogi ac annog myfyrwyr Americanaidd i efigylu) yn hoff o ofyn dau gwestiwn i Gristnogion ar draws y byd. Dyma nhw:

1. "Beth yw'r peth gorau a ddigwyddodd i chi yn ystod eich bywyd?"
Yr ateb yn ddieithriad oedd, "Adnabod Iesu Grist fel Gwaredwr ac Arglwydd."
2. "Os mai adnabod Iesu fel Gwaredwr ac Arglwydd yw'r peth gorau all ddigwydd i unrhyw berson, beth yw'r peth gorau y gall Cristion ei wneud ar gyfer person nad yw'n Cristion?"

Mae rhai o'r syniadau sydd wedi'u cynnwys yn ffeil adnoddau Rhaglen Dorcas wedi'u llunio er mwyn ein helpu i gysylltu â phobl nad oes ganddynt ffydd bersonol yn Iesu Grist ar hyn o bryd. Gellid gwneud cysylltiad trwy ein gwaith a'n gweithgareddau yn y gymuned neu drwy drefnu digwyddiadau penodol ar gyfer ein ffrindiau, teulu, cymdogion neu gydweithwyr. Ond ni ddylem ddisgwyl i bobl ddod i gredu yn Iesu ar sail mynychu grŵp 'Gofalwr a phlantos' yn yr eglwys neu oherwydd ein bod yn llwyddo i'w perswadio i fynychu 'Digwyddiad Arbennig.' Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd yn dod yn Gristnogion yn adnabod rhywun sydd wedi dangos realaeth y ffydd Gristnogol trwy'r ffordd y maent yn byw ac sydd wedi dweud wrthynt hwy am y newydd da am Iesu. Nid un elfen neu'r llall yw'r dewis ond y ddwy elfen ynghlwm â'i gilydd. Does dim modd i bobl gredu mewn rhywbeth neu rywun os nad oes rhywun arall wedi esbonio hynny iddynt - mater o synnwyr cyffredin ydy hyn!

Mae teitl y gyfres hon 'Ga' i ddweud stori wrthynt ti?' wedi'i ddewis er mwyn cyfleu 2 syniad hefyd: bod angen inni rannu ein straeon personol o ddod i ffydd gyda phobl eraill a bod angen inni ddweud wrthynt am stori Duw hefyd, hynny yw, sut y gweithredodd Duw'r Tad ei gynllun achubol ar gyfer y ddynoliaeth trwy fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad ei Fab, a sut y gwneir hyn yn effeithiol ym mywyd unigolyn trwy waith ei Ysbryd Glân.

Felly, sut allwn ni oresgyn ein swildod a'n amharodrwydd i siarad â phobl am ein ffydd yng Nghrist? Ein gobaith a'n gweddi yw y bydd y gyfres hon o dair rhan yn fodd i fynd i'r afael â'r broblem hon. Ein dymuniad angerddol trwy'r rhaglen hon yw y daw'r bobl yr ydym ni yn eu hadnabod a'u caru i adnabod a charu ein Gwaredwr Iesu fel eu Gwaredwr hwythau hefyd.

Canllawiau ar gyfer cynnal y sesiynau hyn

Sylwer: nid cyflwyniad i'r ffydd Gristnogol yw'r gyfres hon. Mae wedi cael ei llunio ar gyfer cynorthwyo ac arfogi Cristnogion i rannu'r ffydd gydag eraill.

1. Cynnal grŵp: Edrychwch ar y canllawiau ar gychwyn cyfres 1.
2. Caniatewch 75 munud ar gyfer pob sesiwn.
3. Mae'r gyfres hon yn seiliedig ar sawl rhagosodiad pwysig: mai gwaith Duw yng nghalon person sy'n dod â'r unigolyn i ffydd achubol ynddo ef ac rydym yn hollol ddibynol ar waith yr Ysbryd Glân; Gair Duw, Y Beibl, yw'r sail ar gyfer ein dealltwriaeth o efengylu a'r syniadau a gynigir; gweddi yw'r flaenoriaeth mewn efengylu wrth inni ddibynnu'n ostyngedig ar waith Duw yn ein bywyd ac ym mywydau eraill; mae efengylu yn gyfrifoldeb ar bob Cristion ac fe all ddigwydd yn ein bywydau arferol beunyddiol; mae'n rhaid i efengylu fod yn rhan allweddol o ddysgeidiaeth a chynllunio'r eglwys.
4. Taflenni Gwybodaeth: darperir taflen wybodaeth ar gyfer pob sesiwn. Dylid rhoi copi i bob person ar ddiwedd y sesiwn. Mae'n cynnwys y prif bwyntiau; yr adnodau allweddol, a'r cwestiynau/pwyntiau i'w hystyried a gweddi bersonol. Anogwch bob unigolyn i dreulio peth amser rhwng y sesiynau yn ailddarllen y deunydd a gweddio.
5. PowerPoint: gellir cael hyd i'r Powerpoint ar wefan Eglwys Bresbyteriaid Cymru (www.ebcpcw.org.uk) ac ar y ddisg amgaeedig.

Llyfrau Defnyddiol

Becoming a Contagious Christian. Bill Hybels: Scripture Press

Evangelism through the local church. Michael Green: Kingsway

Out of the saltshaker. Rebecca Manley-Pippert: IVP

Evangelism made slightly less difficult. Nick Pollard: IVP

Christian Mission in the Modern World. John Stott: IVP

Total Church. Tim Chester and Steve Timmis: IVP

Know and Tell the Gospel. John Chapman: Matthias Media

1. Ga' i ddweud stori wrthyt ti?

Amcanion y sesiwn

- Trafod camsyniadau a rhwystrau ynghylch efengylu
- Trafod rhai canllawiau Beiblaidd ar gyfer efengylu

Sleid 1 – Torri'r Garw

Gwahoddwch aelodau'r grŵp i droi at y person nesaf atynt a dweud wrthynt sut y maent yn gobeithio elwa o'r gyfres hon. Caniatewch 2 funud ar gyfer hyn ac yna gofynnwch am adborth.

Yna, esboniwch eich bod am chwarae gêm cysylltu-geiriau gyda'r grŵp cyfan - gall unrhyw un weiddi ateb. Cychwynnwch gyda rhai geiriau amlwg: mefus (hufen), nos (dydd); siocled (mmm), da (drwg).

Gofynnwch i aelodau'r grŵp droi at y person nesaf atynt a dweud wrthynt pa feddyliau a theimladau sy'n codi wrth glywed y gair 'efengylu'. Eto, wedi 2 funud, holwch y grŵp am adborth. Mae'n debyg bod gan y grŵp feddyliau a theimladau cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd. Sicrhewch hwy fod hyn yn gyffredin iawn, bod y rhan fwyaf o Gristnogion yn ei chael hi'n anodd rhannu eu ffydd gydag eraill, a bod profiadau da a gwael yn rhan o hanes pob Cristion.

Sleid 2 – Beth yw efengylu? Rhai camsyniadau

Cyflwynwch y lluniau trwy ddweud eu bod yn cyfleu rhai syniadau poblogaidd am efengylu. Gofynnwch i'r grŵp ddynodi'r camsyniad a welir yn y llun.

Sleid 3 – llun

Ystyr efengylu yw gwthio'r efengyl i lawr corn gwddf rhywun arall.

Sleid 4 – llun

Ystyr efengylu yw pregethu.

Sleid 5 – llun

Ystyr efengylu yw gwaith drws-i-ddrws.

Sleid 6 – llun

Ystyr efengylu yw cael pobl i'r eglwys.

Wrth gwrs, mae yna elfen o wir ymhob un o'r camsyniadau hyn - ar wahân i'r cyntaf efallai!

Byddwn yn ystyried rôl pregethu a dulliau eraill o efengylu yn ddiweddarach yn y gyfres hon.

Wrth siarad am 'efengylu' neu 'rannu ein ffydd' yn y gyfres hon, sôn yr ydym yn syml am gyflwyno pobl i Iesu.

Wrth reswm, dydy cyflwyno pobl i Iesu ddim mor hawdd â dweud: 'Helo, dyma fy ffrind Iesu'. Cynigodd John Stott y diffiniad defnyddiol hwn wrth ddisgrifio efengylu:

Sleid 7

'Ystyr efengyl yw lledaenu'r newyddion da bod Iesu Grist wedi marw dros ein pechodau ac fe gafodd ei godi o farw yn fyw yn ôl yr Efengyl, ac fel Arglwydd sy'n teyrnasu, mae'n cynnig maddeuant am bob pechod a rhodd yr Ysbryd Glân sy'n rhoi rhyddid ysbrydol i bawb sy'n edifarhau a chredu.' John Stott: *The Lausanne Covenant (clause 4, An Exposition and Commentary)*

Trwy'r sesiynau hyn gobeithio y gallwn sylweddoli bod cyflwyno pobl i Iesu yn rhywbeth y gall pawb ohonom ei wneud, gyda chymorth Duw a thrwy weddi.

Sleid 8 – Mathew 28:19

Rhoddodd Iesu orchymyn penodol i'w ddisgyblion cyn eu gadael a dychwelyd at ei Dad yn y nefoedd. *"Ewch gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchymynion a roddais i chi. Ac yn awr, yr wyf i gyda chi yn wastad hyd ddiwedd amser."* Mathew 28:19.

Mae'r gorchymyn hwn yn berthnasol i bawb ohonom - gan fod pawb ohonom yn rhan o'r broses o wneud 'disgyblion', nid gwaith y Gweinidog yn unig yw hyn! Yn ei hanfod, daw pobl yn ddisgyblion wrth glywed am Iesu a phenderfynu ei ddilyn ef - mae'r gair 'disgybl' yn golygu 'dilynwr'.

Wrth gwrs, golyga hyn bod rhaid iddynt ddod i wybod am Iesu yn y lle cyntaf. A sut mae modd iddynt ddod i wybod am Iesu oni bai bod rhywun yn dweud wrthynt amdano?

Mae'r hyn yr ydyn ni'n ei ddweud wrth bobl am Iesu yn hanfodol bwysig, ac mae'n elfen hefyd y bydd y gyfres hon yn ei drafod.

Pe bai rhywun yn gofyn i chi: "Beth yw'r peth gorau sydd erioed wedi digwydd i chi?" yn ddiamau byddech yn dweud, "Dod yn Gristion." Ond, er gwaetha'r ffaith ein bod yn gwybod bod Iesu yn gorchymyn i'w ddilynwyr wneud disgyblion, ac er gwaethaf ein profiadau ein hunain, rydym oll yn gwybod nad yw'n fater mor hawdd â hynny i siarad am Iesu gyda'n ffrindiau neu gymdogion neu gydweithwyr.

Gobeithio y bydd y gyfres fer yma yn ein cynorthwyo i werthfawrogi rhyfeddod yr efengyl o'r newydd a'n helpu ni i fod yn fwy parod ac yn fwy abl i rannu'r efengyl gydag eraill.

Sleid 9 – Rhwystrau – Pam na allwn ni 'efengylu'

Sleidiau 10 ac 11

Edrychwch ar y rhwystrau ar sleidiau 10 ac 11.

Gofynnwch i bawb feddwl pa rai sy'n wir yn eu hanes hwy.

Edrychwch ar y rhestr eto, un 'rhwystr' ar y tro, gwnewch y sylwadau priodol, gan roi amser i bobl ymateb.

Sleid 12

Beth fyddai pobl yn feddwl ohona'i petaen nhw'n gwybod fy mod yn Gristion?

Weithiau, os nad bob tro, mae ofn ynghylch beth y bydd pobl yn ei feddwl ohonom yn ein dal yn ôl rhag siarad am Iesu. Does arnom ni ddim eisiau bod yn destun sbort; does arnom ni ddim eisiau i bobl feddwl ein bod yn 'gul' neu'n 'hunangyfiawn'.

Yn gyntaf, gallwn fod yn onest â Duw am ein hofnau ac wrth eu cyffesu gerbron Duw, gallwn brofi ei faddeuant, ei rym a'i heddwch.

Yn ail, wrth gofio gair Duw a gweithredu arno, gallwn ddelio ag ofn a choncro'i effaith negyddol, sy'n ein parlysu weithiau.

Er enghraifft, yn 1 Ioan 4: 7-18, mae Ioan yn atgoffa ei ddarlennwyr mai cariad anfeidrol Duw drostynt sy'n difa eu hofn am gosb Duw. Drwy eu hatgoffa o'r GWIRIONEDD hwn am Dduw, gellir delio â'u HOFN ynghylch cosb.

Hefyd, dylem gofio nad yw ein sicrwydd, ein hunanwerth a'n pwysigrwydd personol yn ddibynnol ar bobl eraill a'r hyn y maent yn ei feddwl ohonom, ond yn hytrach ar y ffaith bod **Duw yn ein caru ac yn ein trysori**.

Mae'n bosib na fydd ein hofn yn diflannu ond gallwn ei rwystro rhag ein parlysu trwy gofio a gweithredu yn ôl Gair Duw.

Sleid 13

Dwi wedi trio sôn am fy ffydd o'r blaen ac wedi gwneud smonach o bethau

Mae'n bosib ein bod wedi gwneud camgymeriadau yn y gorffennol gan fod yn rhy hyf, heb ateb cwestiwn yn dda neu heb ddweud un dim o gwbl pan fo gofyn gwneud hynny! Ond gallwn oll ddysgu o gamgymeriadau'r gorffennol a symud ymlaen.

Rhaid inni gofio bod Duw yn derbyn hyd yn oed ein hymdrechion mwyaf tila ac yn creu rhywbeth daionus ohonynt. Er enghraifft, yn 1 Corinthiaid 2:1-5 disgrifia'r Apostol Paul sut yr aeth i Gorinth gan deimlo'n wan ac ofnus. Ond ymddiriedodd y byddai Duw ar waith trwy'r Ysbryd Glân yn ei ymdrechion gwan – a dyna'n union a ddigwyddodd. Mae'n rhaid i ninnau ymddiried yn Nuw yn yr un modd.

Sleid 14

Y drafferth yw does gen i ddim ffrindiau nad ydyn nhw ddim yn Gristnogion!

Weithiau, mae Cristnogion yn rhy brysur yn ymwneud â 'phethau'r eglwys' fel nad oes ganddynt amser i'r bobl hynny nad ydynt yn yr eglwys. Ond bydd bron pawb ohonom yn cyfarfod pobl nad ydyn nhw'n Gristnogion yn ein bywydau bob dydd - y siopwr, y steilydd gwallt, cydweithwyr a chymdogion.

Wrth imi ysgrifennu'r llith hwn, mae'r plymar yma ac yn dweud wrtha' i sut y cychwynnodd o a'i wraig fynd i'r eglwys pan gafodd hi ddiagnosis canser! Dyma'r math o bobl a chyfleoedd y gallwn ddechrau gweddio drostynt.

Sleid 15

Sut all rhywun rannu ei ffydd pan mae ef ei hun yn simsanu yn ei chylch?

Mae pob Cristion yn cael cyfnodau gwell a gwaeth, ac yn wynebu amheuan a chwestiynau. Gallwn fod yn onest â Duw am y rhain ac fe allwn ofyn i Gristnogion eraill am gymorth a chefnogaeth.

Yn aml, mae rhannu ein ffydd yn cadarnhau'r hyn yr ydym yn ei gredu. Fel y gwelwyd ynghynt o brofiad Paul (pwynt 2: 1 Corinthiaid 2:1-5) pan ydyn ni'n 'wan', mae ef yn 'gryf.'

Sleid 16

Fydd dim modd imi ateb eu cwestiynau - ac i fod yn onest dwi ddim yn meddwl bod ffydd o'r ganrif gyntaf yn apelio rhyw lawer at bobl sy'n byw yn yr unfed ganrif ar hugain.

Does dim rhaid inni berswadio pobl ac ateb eu holl gwestiynau. Duw sy'n gweithio ym mywyd person i ddod â hwy i'r pwynt hwnnw lle y byddant yn credu fel y gwelwn yn ddiweddarach yn y gyfres hon.

Dywedodd yr Apostol Paul yn 1 Corinthiaid 1:18 fod pobl yn ystyried mai 'ffolineb' yw'r efengyl, ond mewn gwirionedd doethineb Duw sydd i'w weld ynnddi. Ac wedi'r cwbl, y 'ffolineb' hwn a weddnewidiodd eich bywyd!

Sleid 17

Gwaith y Gweinidog/efengyllydd yw efengylu - neu rywun â dawn dweud ganddo/ganddi!

Mae'n wir dweud bod Duw yn rhoi doniau arbennig i rai er mwyn pregethu neu efengylu. Ond dydy cyflwyno pobl i Iesu ddim o reidrwydd yn golygu curo ar ddrysau pobl neu sefyll mewn pulpud i bregethu. Mae Duw angen pob math o bobl i drafod gyda phob math o bobl! Gelwir pob Cristion i sôn wrth eraill am Iesu.

Gweler Actau 8:1-4 a Rhufeiniaid 10:14.

Fel y soniwyd ynghynt, gallwn weddio y bydd Duw yn ein helpu i siarad yn naturiol gan helpu'r bobl hynny yr ydym yn eu cyfarfod.

Sleid 18

I fod yn onest does dim ots gen i.

Ydyn ni'n ddigon onest i gyfaddef hyn? Pan fo cyfle'n codi i ddweud rhywbeth am Iesu, yn aml iawn, - neu'n wir bob tro - mae'n haws dweud DIM. Wrth gyfaddef hyn, mae'n swnio'n eithaf cywilyddus ac fe wyddom ni nad yw'n dda bod mor ddifater. Ond mae hyd yn oed pregethwyr a Christnogion sy'n cael eu cydnabod fel 'efengylwyr', yn cyfaddef eu bod hwythau hefyd yn teimlo fel hyn, ac yn cydnabod eu bod yn profi adegau lle nad oes ganddynt ANGERDD dros weld pobl yn cael eu hachub. Byddwn yn ystyried hyn mewn ychydig mwy o fanylder yn y sesiwn nesaf.

Sleid 19 – Rhai canllawiau

Parhewch i weddio yn ddyfal, yn effro ac yn ddiolchgar. Gweddiwch yr un pryd drosom ninnau hefyd, ar i Dduw agor i ni ddrws i'r gair, inni gael traethu dirgelwch Crist, y dirgelwch yr wyf yn garcharor er ei fwyn. Gweddiwch ar i mi ei amlygu, fel y mae'n ddyletswydd arnaf lefaru. Colosiaid 4:2-4

Darllenwch Colosiaid 4:2-4.

Esboniwch fod yr Apostol Paul wedi ysgrifennu'r cyfarwyddiadau hyn i eglwys ifanc gan gynnig canllawiau iddi ar gyfer rhannu neges am Iesu. Rydym am ganolbwyntio ar yr hyn a ddywed Paul fan hyn am bwysigrwydd allweddol gweddi.

Sleid 20 – Parhewch i weddio yn ddyfal adnod 2

Mae'r gair Groeg a gyfieithir yma fel 'parhewch' yn golygu 'peidio byth â rhoi i fyny'. Mae Paul yn dweud wrth ei ddarllenwyr na ddylent fyth roi'r gorau i weddio. Fe wŷr fod treulio amser mewn gweddi ar Dduw yn ein llunio ac yn ein newid.

Dyhead Duw yw ein bod ni'n dod yn debyg i'w Fab Iesu (2 Corinthiaid 3:18; 1 Corinthiaid 15:45-49; Rhufeiniaid 12:2). Gweddi yw un ffordd o hwyluso'r trawsnewidiad hwn.

Un frwydr a wynebwn yw cael ein **cymell** i rannu ein ffydd. Wrth i'n meddyliau gael eu trawsnewid, felly hefyd caiff ein dyheadau a'n cymhelliant eu trawsnewid.

I'w Ystyried: a yw gweddi mor bwysig â hyn i mi ac i'n heglwys? Pa gamau ymarferol y gallwn ni eu cymryd er mwyn gwella hyn?

Sleid 21 – Parhewch ... yn effro, ac yn ddiolchgar adnod 2

Ystyr 'effro' yn y cyd-destun hwn yw bod yn 'ymwybodol'. Mae angen gwneud pobl Dduw yn 'ymwybodol', yn ymwybodol o'u hanghenion ac anghenion eraill. Dylai ein hymwybyddiaeth o'n hanghenion beri i ni droi at Dduw mewn gweddi. Efallai bod angen maddeuant neu gymorth i ufuddhau. Efallai bod arnom angen arweiniad neu ddoethineb mewn sefyllfaedd penodol.

Wrth ddod yn ymwybodol o anghenion eraill, trown at Dduw i gyflwyno ceisiadau ar eu rhan ac er eu lles. Yn ogystal â dod â'n ceisiadau at Dduw, mae Paul yn annog ei ddarllenwyr a ninnau hefyd, i fod yn 'ddiolchgar'. Wrth inni ystyried pwy yw Duw a'r hyn y mae wedi'i wneud yn barod, cawn ein symud i ostyngeddwrwydd, i roi diolch iddo, i'w ganmol ac fe ysgogir ein ffydd ar gyfer y dyfodol hefyd.

I'w Ystyried: sut ydym yn dod yn ymwybodol o'n hanghenion? Edrychwch ar 2 Timotheus 3:16. Sut ydym yn dod yn ymwybodol o anghenion eraill? Pa mor ddiolchgar ydw i?

Sleid 22 – Gofyn i Dduw am ‘ddrws agored’ adnod 3

Mae Paul am i'w ddarllenwyr ofyn i Dduw roi cyfleoedd iddo i rannu ei neges. Mae'n galonddid i ni sylweddoli bod Paul wedi gofyn i'w ffrindiau weddio am hyn. Roedd yn cydnabod bod angen cymorth goruwchnaturiol Duw arno er mwyn rhannu'r efengyl.

I'w Ystyried: Os gofynnwn i Dduw am gyfleoedd, a fyddwn ni'n ddigon mentrus i'w derbyn?

Sleid 23 – Cyhoeddwch ‘dirgelwch Crist...yn glir’ adnod 3

Disgrifia Paul y neges y mae am ei rhannu gydag eraill fel ‘dirgelwch Crist’. Nid cyfrinach am Crist nad oes modd ei gwybod yw ystyr hyn. Mae Paul eisoes wedi defnyddio'r frawddeg hon ym mhennod gyntaf y llythyr hwn.

Darllenwch Bennod 1:25-27. Cynllun Duw yw'r dirgelwch. Doedd dim modd deall y cynllun yn iawn yng nghyfnod y proffwydi, ond mae dyfodiad Iesu i'r ddaear wedi cyflwyno eglurder. Iesu yw cynllun Duw.

Mae gan bobl Dduw obaith sicr o fywyd tragwyddol gan fod Crist yn byw ynddynt trwy gyfrwng ei ysbryd. Canolbwynt neges Paul yw Iesu.

Mae ef am i'w ddarllenwyr weddio y bydd modd iddo ddatgan y neges yn glir. Mae'n amlwg ei fod am wneud ei orau wrth geisio dweud wrth bobl am Iesu.

I'w Ystyried: Beth ydw i'n ei ddeall am fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu? Allwn i esbonio hyn yn eglur i rywun arall? Beth allai fy helpu?

I Orffen

Treuliwch 5 munud arall yn edrych ar yr adran hon eto.

Beth y mae Duw yn ei ddweud wrthyich am eich bywyd o weddi trwy gyfrwng yr adnodau hyn?

Treuliwch amser yn ystod yr wythnos yn ail-ddarllen yr adnodau hyn.

Gweddïwch y weddi hon yn ddyddiol dros aelodau eraill y grŵp.

Ystyriwch beth yw'r pethau pwysig am Iesu y mae angen inni eu cyfleu i bobl eraill.

Gweddïwch dros Gristnogion eraill sydd 'mewn cadwynau' heddiw am eu bod wedi siarad am Iesu.

Gallwch gael y wybodaeth ar lein ar:

www.barnabusfund.org.uk

www.opendoors.uk.org

2. Cymhelliant

Amcanion y sesiwn

- Ystyried beth sy'n cymell Cristion i geisio cyflwyno Iesu i eraill.
- Ystyried sut y gall person gael ei gymell os yw tosturi neu angerdd dros eraill yn brin.

Torri'r Garw

Beth fyddai'n eich cymell chi?

Gofynnwch i aelodau'r grŵp droi at y person sydd nesaf atynt a holi'r cwestiynau a ganlyn - does ond angen atebion byr!

Beth fyddai'n eich cymell chi i godi awr ynghynt ar fore Sadwrn? Gyrru 50 milltir allan o'ch ffordd ar siwrne hir? Bwyta rhywbeth sydd ddim at eich dant? Gwneud rhywbeth sy'n codi ofn arnoch?

Gofynnwch am adborth. Mae'n bosib y cewch chi resymau cadarnhaol a negyddol, e.e., Wna'i fwyta rhywbeth dwi ddim yn ei hoffi go iawn gan ei fod yn llesol i mi/ i blesio'r person a'i gwnaeth!

Sleid 26 – Cymhellion ar gyfer rhannu ffydd

Dyma rai cymhellion ar gyfer rhannu eich ffydd. Gofynnwch i'r grŵp ddewis eu 'prif dri rheswm' a siarad mewn paru ynghylch eu dewisiadau.

Sleid 27

'Y cymhelliant puraf dros efengyl yw gweledigaeth. Ystyr gweledigaeth yw gweld y byd a'r bobl ynddo fel y mae Duw'r Tad yn eu gweld.'

Mae'r uchod yn ddyfyniad o Leighton Ford, dyn a dreuliodd ei oes yn rhannu'r efengyl gyda phobl ar draws y byd.

Mae'n Llywydd y Leighton Ford Ministries, UDA, sy'n canolbwyntio ar godi arweinwyr ifanc i ledaenu neges Crist ledled y byd. Mae wedi siarad wyneb yn wyneb â miliynau o bobl mewn 37 gwlad ar bob cyfandir yn y byd, ac o 1955 i 1985 gweithredodd fel Efengyllydd Cynorthwyol ac Is-lywydd Cymdeithas Efengylu Billy Graham. Mae Dr Ford yn Gadeirydd Anrhydeddus Am Oes Pwyllgor Lausanne dros Efengylu Byd Eang.

A yw'r grŵp yn credu eu bod yn dueddol o edrych ar bobl o bersbectif dynol yn hytrach nag edrych arnynt o bersbectif Duw?

Yn anorfod, wrth feddwl am bobl o bersbectif dynol yn unig, tueddwn i feddwl: 'Beth sydd gan Gristnogaeth i'w gynnig iddynt hwy? Maen nhw'n edrych yn ddigon bodlon. Dydyn nhw ddim fel petaen nhw angen Crist.'

Yn y sesiwn hon, rydym am ystyried mai un o'r dulliau mwyaf effeithiol o gymell pobl Dduw i rannu eu ffydd a chyflwyno eraill i Iesu yw gweld y byd a'r bobl sydd ynddo fel y mae Duw ei hun yn ei wneud.

Sleid 28 – Gweld pobl fel y mae Duw yn eu gweld

Trwy gydol ei weinidogaeth ar y ddaear roedd dysgeidiaeth Iesu yn dangos sut oedd Duw yn gweld pobl. Mae'r tair dameg yn Luc, pennod 15 yn cyflwyno darn o arian ar goll, dafad ar goll, a mab ar goll.

Darllenwch Luc 15:3-7. Rhannwch y grŵp yn grwpiau llai a gofynnwch iddynt drafod beth yw prif bwynt y ddameg yn eu tyb hwy. Wedi munud neu ddau, gofynnwch am adborth.

Sleid 29 – Mae pobl ar goll yn y bywyd hwn heddiw

Edrychwch ar yr adnodau a ganlyn i weld beth a ddysgodd Iesu a'r apostolion am natur pobl cyn iddynt ymddiried yng Nghrist.

Luc 19:10

Effesiaid 2:1,12; 4:18

2 Corinthiaid 4:3-4

Datguddiad 3:17

Dydy'r ddysgeidiaeth hon ddim yn hawdd ond mae'n eglur. Cyn i bobl ymddiried yng Nghrist fel eu Gwardwr, maent ar goll, yn farw, mewn pechod, heb obaith. Does ond un man lle y gellid delio gydag afiechyd marwol pechod a darganfod bywyd tragwyddol a gobaith, sef croes Iesu Grist.

Sleid 30 – Mae pobl ar goll yn dragwyddol

Mae'r Beibl yn dysgu ein bod yn fodau tragwyddol, a heb Grist, mae'r cyflwr hwn o fod ar goll yn un tragwyddol hefyd.

Cafwyd cryn drafodaeth dros y blynyddoedd diwethaf ymhlith diwinyddion amlwg am gosbedigaeth dragwyddol a bodolaeth uffern.

Mae'r adnodau a ganlyn yn dangos beth oedd gan Iesu a'r apostolion i'w ddweud:

Mathew 25:46

Ioan 5:24

Luc 16:19-28

2 Thesaloniaid 1:9

Jwdas 1:7

Pe baem yn gadael i'r adnodau hyn dreiddio i'n calonnau - a fyddem yn edrych ar y bobl o'n cwmpas â llygaid gwahanol, â llygaid Duw? A fyddai ein calonnau'n cael eu llenwi â thosturi? A fyddai ein blaenoriaethau'n wahanol? A fyddai ein dyheadau'n wahanol?

Gwelodd Iesu'r colledig yn yr un modd â'i Dad ac roedd yn fodlon cynnig ei fywyd fel aberth er mwyn eu ceisio a'u hachub - ein hachub ni.
Ioan 10:14, 15.

Sleid 31

Gofynnwch i'r grŵp ystyried y cwestiwn hwn fel unigolion neu mewn paru:

Pe bawn i'n gweld pobl yn yr un modd ag y mae Duw yn eu gweld hwy pa wahaniaeth a fyddai hynny yn ei wneud o ran fy mherthynas i â hwy? Caniatewch 2 funud ar gyfer hyn.

Wedyn, gofynnwch i'r grŵp gynnig atebion i'r cwestiynau: 'Beth sy'n cymell pobl i ... neidio bynji? Casglu stampiau? Dringo mynyddoedd? Eilunaddoli sêr ffilm neu bop?

Rydym wedi gweld un rheswm cwbl sylfaenol pam y dylent ddweud wrth bobl am Iesu, sef eu bod ar goll hebdo.

Yn nesaf, byddwn yn ystyried cymhelliant arall dros wneud disgyblion, hynny yw, fel y nodwyd ar gychwyn y sesiwn gyntaf, bod Iesu wedi gorchymyn i'w ddisgyblion wneud hynny.

Sleid 32 – Ufuddhau i orchymyn Crist

Mathew 28:18 *Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: "Rhoddwyd i mi," meddai "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchymynion a roddais i chwi. Ac yn awr yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser."*

Mae efengyl Mathew yn gorffen gyda'r adnodau uchod; mae efengyl Marc yn gorffen gyda golygfa o'r disgyblion yn pregethu 'ym mhob man'; mae efengyl Luc yn gorffen gydag Iesu yn dweud wrth ei ddisgyblion am fod yn dystion iddo ac Ioan yn gorffen ei efengyl yntau drwy ddweud ei fod ef yn tystiolaethu i'r hyn a wnaeth Iesu. Mae'r efengylau yn pwysleisio bod dilynwyr Iesu i ledaenu'r gair, i fod yn dystion i'r hyn y maent wedi ei weld a'i glywed, fel bod eraill yn credu ac yn dilyn Crist.

Yna wrth gwrs, mae llyfr yr Actau yn cofnodi sut y dechreuodd y disgyblion ufuddhau i orchymyn Iesu gan ddechrau cyhoeddi yr efengyl '... yn Jerwsalem... a hyd eithaf y ddaear'. Actau 1:8.

Fel y nodwyd yn y sesiwn gyntaf, nid yr apostolion yn unig oedd y 'tystion' hynny a gyhoeddodd y newydd am Iesu. Roedd credinwyr cyffredin yn lledaenu'r neges am Iesu ble bynnag yr oeddent yn mynd. Gweler Actau 8:1-4 a Rhufeiniaid 10:14. Dyna'r her!

Sleid 33 – Ar gyfer myfyrdod personol a gweddi

A ydw i o ddifrif ynglŷn â gorchymyn Iesu i fod yn dyst iddo?

A ydw i'n bod yn dyst ffyddlon - ydw i'n 'dweud fel y mae hi' neu ydw i wedi addasu'r hyn yr ydw i'n ei ddweud am Iesu i wneud y neges yn fwy derbyniol?

Sleid 34 – Cael ein gorfodi/cymell gan gariad Crist

Darllenwch 2 Corinthiaid 5:14. *'Oherwydd y mae cariad Crist yn ein gorfodi ni, a ninnau wedi ein hargyhoeddi o hyn: i un farw dros bawb... er mwyn i'r byw beidio â byw iddynt eu hunain mwyach, ond i'r un a fu farw drostynt ac a gyfodwyd.'*

Mae'r gair 'gorfodi' (BCND) wedi ei gyfieithu fel 'cymell' gan William Morgan neu 'annog' (NAB), 'llethu' (NJB) a 'cael gafael ynom' (MLB).

Mae'r apostol Paul yn dweud wrth ei ddarllenwyr bod cariad Crist bellach yn ei reoli neu ei lethu, neu wedi cael gafael ynddo. Dyna pam y mae'n gwneud yr hyn y mae'n ei wneud. Dyna pam y mae'n ufudd i orchymyn Crist i wneud disgyblion. Dyna pam y mae'n fodlon wynebu pob math o galedi ar hyd y daith. Gan fod Iesu wedi marw drosto, caiff ei orfodi bellach i fyw dros Iesu.

Cyflwynir yr eglureb hon gan Pete Hodge, efenglydd yng Nghaerdydd.
"Dwi'n cofio yn fy nyddiau gwrthryfelgar, cyn dod yn Gristion, ymwneud â sgarmesoedd gangiau rhwng y Mods a'r Rockers. Weithiau, byddai'r Frigâd Dân yn cael ei galw i mewn ac roedd llif y dŵr yn ein hysgubo oddi ar y stryd. Doedd dim modd gwrthsefyll llif y chwistrelli dŵr. Dyna rym anorchfygol Cariad Crist y mae Paul yn sôn amdano wrth grybwyll yr hyn sy'n ei 'orfodi', ac yn ei yrru yn ei flaen."

Mae'r Apostol Ioan hefyd yn gwneud y pwynt hwn yn 1 Ioan 4.

Darllenwch 1 Ioan 4:7-12

Dywed Ioan wrth ei ddarllenwyr pan gaiff person ei eni o Dduw (adnod 7), daw natur Duw yn natur iddynt hwythau hefyd - maent wedi pasio o farwolaeth i fywyd (3:14) ac mae Duw, drwy ei Ysbryd yn byw o fewn y crediniwr (adnod 12). Beth yw natur Duw? Mae adnod 16 yn dweud wrthym yn bendant mai 'Duw cariad yw'.

Mae'n gwbl ryfeddol, mewn modd sydd bron y tu hwnt i'n dealltwriaeth ni, pan fo person yn dod yn blentyn i Dduw yna mae Duw yn trosglwyddo ei natur ef iddo/iddi, a hanfod y natur honno yw cariad.

Mae Ioan yn atgoffa ei ddarllenwyr bod Duw wedi dangos ei gariad at y byd mewn modd unigryw - drwy roi ei Fab fel lawn ar gyfer ein pechodau. Gwelodd Duw'r byd colledig ac roedd ei gariad yn ei **orfodi** i gael hyd i ffordd i achub y byd. Mae ffordd iachawdwriaeth yn golygu bod Iesu wedi rhoi ei fywyd er mwyn ysgwyddo digofaint Duw a dileu ein pechod. Dyna sut beth yw cariad Duw.

Dyna'r cariad y mae Ysbryd Duw yn ei blannu yng nghalon y crediniwr; dyna'r cariad sydd yn ein gorfodi i rannu'r neges am aberth lawinol Iesu gydag eraill.

Sleid 35 – Ar gyfer myfyrdod personol a gweddi

A yw cariad Duw yn fy rheoli? Yn fy ngorfodi? Yn fy llethu?

Sleid 36 – Tosturi ac Angerdd - yr hanfodion

Beth ydych chi yn angerddol amdano?

Gofynnwch i'r grŵp gynnig atebion ac esbonio **pam** eu bod yn angerddol am y pwnc dan sylw.

Darllenwch Marc 1: 40-42. Beth oedd cymhelliad Iesu dros iacháu'r gwahanglwyfus? *Tosturi*.

Un o'r emosiynau mwyaf amlwg a brofodd Iesu oedd tosturi.

Gweler Mathew 9:36; 14:14; 15:32; 20:34; Marc 6:34; 8:2.

Ei dosturi oedd y cymhelliad yn wastad tu ôl i'r weithred - i iacháu, i ddysgu neu i fwydo.

Sleid 37 – Diffiniad o dosturi

Ystyr 'tosturi' yw gweld dioddefaint unigolyn arall a mynd ati yn fwriadol i'w leddfu.

Dyna'r hyn a wnaeth Iesu yn ystod ei weinidogaeth ddaearol a dyna yw ystyr ei farwolaeth.

Rydym eisoes wedi gweld bod cariad Duw wedi ei annog i weithredu - i ddanfon Iesu i fod yn Waredwr i ni. Arweiniodd tosturi Iesu wrth fyd colledig iddo gynnig ei fywyd fel aberth lawinol dros ein pechod.

Sleid 38 – Diffinio angerdd

Un diffiniad mewn geiriadur: 'Mae angerdd yn derm a gysylltir â theimlad cryf iawn am berson neu beth. Mae angerdd yn **emosiwn** dwys iawn, sy'n ysgogi teimlad, brwdfrydedd neu **awydd** am rywbeth.'

Roedd gan Iesu angerdd dros y colledig a welai o'i gwmpas. Angerdd Duw oedd achub y colledig a dyna'i angerdd o hyd.

Ond beth os ydym yn synhwyro mai dim ond ychydig bach o dosturi sydd gennym - nid digon i'n sbarduno i weithredu? Beth os mai dim ond ychydig 'angerdd' sydd gennym i weld pobl eraill yn dod yn ddilynwyr i Iesu?

Sut allwn ni gael ein llenwi â thosturi fel Iesu? Sut allwn ni feddu'r synnwyr o angerdd dros eraill? Sut allwn ni brofi cariad Duw yn ein gorfodi i ufuddhau i'r gorchymyn i 'wneud disgyblion'?

Sleid 39 – Cofio'r Hanfodion

Yn ei lyfryn defnyddiol "How 2. Evangelism," dywed yr efengyllydd Pete Hodge fod yn rhaid cofio'r hanfodion os ydym am ailgynnau'r angerdd dros efengylu.

Ydych chi erioed wedi gorfod 'Cofio'r Hanfodion'?

Yn ddiweddar, roedd rhaid imi ddefnyddio patrwm papur i wneud gwisg, ond roeddwn heb wneud unrhyw wisg ers amser maith. Roeddwn i'n ofni gwneud camgymeriad wrth dorri'r patrwm o'r defnydd drud iawn. Gallwn fod wedi cario ymlaen a dyfalu sut i osod y patrwm, ond doeddwn i ddim

am wneud camgymeriad. Es i ar-lein a darllen ar y pwnc. Wedyn, o 'gofio'r hanfodion' roeddwn i'n gwybod sut i fwrw ymlaen â'r gwaith!

Dyma restr addasedig Pete Hodge ynghylch 'cofio'r hanfodion' (gyda chaniatâd).

Sleidiau 40/41/42

1. Os ydym wedi colli taerineb dros bobl, mae angen cyffesu hyn o flaen Duw a ni ein hunain ac edifarthau.
2. Gofynnwch i ffrind / grŵp am gymorth a threulio amser gydag eraill sydd ag angerdd dros efengyl.
3. Treuliwch amser mewn gweddi gan ystyried yr efengyl a'r pwyntiau sydd wedi'u gwneud yn y sesiwn hon - gweld pobl fel y mae Duw yn eu gweld, cael ein gorfodi gan gariad Crist i ufuddhau ac i ddangos tosturi.
4. Gwrandewch ar bregethau neu bodlediadau a darllenwch lyfrau a fydd yn eich cynorthwyo i werthfawrogi rhodd ryfeddol Duw o iachawdwriaeth.
5. Gofynnwch i'r Ysbryd Glân osod y baich am eneidiau ar eich calon.
6. Meddyliwch am Galfaria a sut y dioddefodd Iesu yno oherwydd eich pechodau.
7. Meddyliwch am yr hyn y mae'r rhodd o iachawdwriaeth wedi'i roi i chi.
8. Meddyliwch am yr hyn oedd eich bywyd hebdo a beth fyddai eich bywyd hebdo.
9. Meddyliwch am y posibilrwydd mai dyma'r unig dro neu'r tro olaf y gallwch rannu Crist gyda rhywun.

Sleid 43 – Cofio'r Hanfodion

Treuliwch beth amser yr wythnos hon i ystyried a oes angen 'cofio'r hanfodion'. Fe allwch ddarganfod y bydd angen ichi wneud amser i wneud hyn yn iawn ac yn onest.

Yn ei hunangofiant, dywed Nigel Mansell am rasio:

'Mae yna hanfodion y mae'n rhaid inni ddod yn ôl atynt dro ar ôl tro ac adeiladu arnynt, does dim diben gadael ac anwybyddu'r egwyddorion sylfaenol, rhaid adeiladu arnynt'

Cyngor da ar gyfer gyrywyr rasio - ac i bawb ohonom!

3. Dweud fy Stori – Dweud Stori Duw

Amcanion y sesiwn

I'w Ystyried:

- Ffyrdd yr ydym yn cyfathrebu'r efengyl i eraill
- Sut i gydnabod cyfleoedd
- Sut i rannu ein stori
- Dynodi hanfodion 'Stori Duw' y mae'n rhaid inni eu rhannu

Bydd angen 2 gopi o'r sgets o Atodiad 1.

Byddai'n dda petaech yn medru holi 2 berson o flaen llaw i'w gyflwyno.

Sleid 45 – Dweud fy Stori – Dweud Stori Duw

Sleid 46 – Pam nad ydym – Pam y dylem – Ble mae'r Angerdd?

Yn y ddwy sesiwn gyntaf, ceisiwyd ateb y pwyntiau hyn: Pam ein bod yn cael anhawster i drafod ein ffydd yn Iesu gyda phobl eraill, pam y dylem ddweud wrth bobl am Iesu a beth y gallwn ei wneud os mai gwan yw ein hangerdd dros weld eraill yn dod i adnabod Crist.

Yn y sesiwn hon, rydym am ymdrin â'r hyn y mae angen inni ei ddweud wrth bobl mewn mwy o fanylder, a sut y gallwn wneud hyn.

Torri'r Garw

Gofynnwch y cwestiwn a ganlyn i'r grŵp. Ceisiwch annog gwahanol bobl i ateb, fel bod pawb yn cyfrannu.

Ydych chi yn gwyllo neu'n gwrando ar operâu sebon o gwbl? Ydych chi'n mwynhau sioeau sgwrsio? Ydych chi'n cael blas ar ddarllen cofiannau neu hunangofiannau? Ydych chi'n darllen cylchgronau sydd yn cynnwys straeon o ddiddordeb dynol neu gyfweiliadau?

Yna gofynnwch i'r grŵp pam, yn eu barn hwy, rydym ni'n gweld bywydau pobl eraill mor ddiddorol. Gallai'r atebion posib gynnwys: gallu uniaethu â nhw; maent yn cyffwrdd ein calon; maent yn 'hawdd' gwrando arnynt - does dim gormod o waith meddwl; does dim byd 'bygythiol' o'u cwmpas; a does dim angen ymateb iddynt fel rheol.

Yn y sesiwn hon, esboniwch y byddwn yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio ein stori o ddod i ffydd wrth siarad gyda phobl nad ydynt yn Gristnogion ar hyn o bryd a sut i wneud hyn mewn ffyrdd priodol, diddorol a defnyddiol.

Ond byddwn hefyd yn trafod nad yw'n ddigon dweud ein stori neu adrodd ein tystiolaeth. Mae'n rhaid inni esbonio stori Duw i bobl, hynny yw, mae'n rhaid inni allu esbonio pam yr oedd yn rhaid i Iesu ddod i'r ddaear i farw.

Sleid 47 – Dweud fy Stori

'Ar goll, fe'm caed, ac ar fy nos, Fe dorrodd gwawr yn lli.'
John Newton (Cyf. Dafydd Owen).

Esboniwch ein bod am dreulio amser yn meddwl am ein siwrne ni at ffydd. Cydnabyddwch fod pawb yn dod i ymddiried yng Nghrist mewn ffordd unigryw. Gall rhai pobl bwyntio at adeg benodol y bu iddynt ofyn i Grist ddod i mewn i'w bywydau a dyna oedd y trobwynt iddynt hwy, pryd y daethant i wybod eu bod yn Gristion.

Yn hanes pobl eraill, does yr un adeg benodol yn dod i'r meddwl, ond dros gyfnod o amser daethant i ddeall yr efengyl a'i chredu ac ymddiried yng Nghrist fel eu Gwaredwr.

Fodd bynnag, gall pob Cristion ddweud Amen wrth yr hyn a ddywedodd yr emynydd John Newton, 'Ar goll, fe'm caed, ac ar fy nos, Fe dorrodd gwawr yn lli.' Mae pawb ohonom yn gwybod bod amser pan nad oeddem yn caru'r Arglwydd ac yn ymddiried ynddo ar gyfer ein hiachawdwriaeth, ond erbyn hyn, rydym yn bendant yn gwneud hynny.

Rhowch ddarn o bapur a beiro i bob person. Gofynnwch iddynt ddal y papur yn ei hyd a thynnu llinell ar draws y canol o'r chwith i'r dde. Esboniwch fod y llinell hon yn sefyll dros eu bywyd hyd yma.

Mae'r gofod uwchben y llinell yn cynrychioli'r 'pethau da' sydd wedi digwydd mewn bywyd: mae'r gofod o dan y llinell yn cynrychioli'r anawsterau neu'r adegau anodd. Gofynnwch i bob person ddynodi adegau arwyddocaol ar y llinell gan sgwennu nodyn neu esboniad byr uwchben neu o dan y llinell. Er enghraifft, 'Fy nghymydog yn mynd â fi i'r ysgol Sul'; 'Fy nhad yn marw a finnau yn fy ardegau'; 'Roeddwn i'n gweithio gyda Christion yn fy swydd gyntaf.'

Gwnewch yn siŵr bod pawb yn deall y byddant, yn y man, yn defnyddio'r llinell amser hon i esbonio i rywun arall sut y daethant yn Gristion, ac y bydd ganddynt 5 munud i sgwennu a 3 munud yr un i lefaru. Caniatewch 5 munud ar gyfer hyn a 6 munud arall er mwyn i bob person 'adrodd' ei stori wrth rywun (3 munud yr un).

Dowch â'r grŵp ynghyd eto. Gofynnwch iddynt feddwl am y stori y maent newydd ei chlywed a'r stori y maent wedi'i hadrodd. A oedd y stori a glywsoch chi yn un ddiddorol? Wrth ichi ddweud eich stori, oedd y stori honno'n swnio braidd yn ddiflas neu'n gyffredin?

Mae'n debyg y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo nad yw eu stori hwy mor ddiddorol â stori eu partner. Ond does dim straeon ail ddsbarth o gwbl! Mae'r modd y mae Duw wedi gweithio yn ein bywydau yn unigryw. Iachawdwriaeth yw rhodd Duw i ni ac mae'n wirioneddol ryfeddol fod Duw wedi rhoi bywyd i ni a ninnau'n farw yn ein pechod - a does dim gwahanol raddfeydd o fod yn farw!

Ond, fe allwn ni ddweud ein straeon mewn ffyrdd ail ddsbarth! Efallai bod angen inni dreulio ychydig o amser yn meddwl am ein straeon fel bod modd eu hadrodd yn gryno ac yn ddiddorol heb ddefnyddio jargon Cristnogol.

Yn y sesiwn gyntaf, edrychwyd ar beth o'r cyngor a roddodd Paul i'r Eglwys yn Colosae ynghylch pwysigrwydd allweddol gweddi wrth geisio rhannu'r efengyl.

Mae'r adnodau dilynol yn cynnwys peth cyngor ynghylch SUT i rannu'r efengyl hefyd.

Sleid 48 – Sut i rannu fy Stori

Colosiaid 4:5,6. *Byddwch yn ddoeth eich ymddygiad tuag at y rhai sydd y tu allan; daliwch ar eich cyfle. Bydded eich gair bob amser yn rasol, wedi ei flasu â halen, ichwi fedru ateb pob un fel y dylid.*

Sleid 49 – Byddwch Ddoeth adnod 5 (CEFNDIR, CREDOAU, RHWYSTRAU)

Mae doethineb Beiblaidd yn golygu'r gallu i wybod beth i'w ddweud, pryd i'w ddweud a sut i'w ddweud. Mae'n cynnwys deall lle mae pobl ar hyn o bryd fel y gallwn siarad â sensitifrwydd mewn modd sy'n berthnasol i'w hanghenion hwy. Mae doethineb fel hyn yn deillio o gyfuniad o'r Ysbryd Glân a synnwyr cyffredin ymarferol.

Mae angen inni WRANDO ar bobl.

Rydym angen bod yn sensitif i'w CEFNDIR, eu CREDOAU a'u RHWYSTRAU posib.

Trowch i daflen wybodaeth 3 am fwy o fanylion ynghylch CEFNDIR, CREDOAU, RHWYSTRAU.

Sleid 50 – Gwnewch yn fawr o bob cyfle adnod 5

Wrth gwrs, mae gwahaniaeth rhwng creu/gwneud cyfleoedd a chymryd cyfleoedd. Gofynnwch i'r ddau aelod berfformio'r sgets o Atodiad 1.

Gofynnwch i'r grŵp am eu barn am y dull a ddefnyddiodd George? Pa gyngor a fyddent yn ei roi iddo?

Sleid 51 – Gwnewch yn fawr o bob cyfle: Adegau mewn bywyd

Mae'n bosib bod pobl yn fwy agored i faterion a sgysiau ysbrydol a hwythau ar adeg benodol yn eu bywydau. Wrth inni wrando arnynt, gallwn uniaethu â hwy'n aml a rhannu â hwy rywbeth o'n stori ni sy'n berthnasol.

Er enghraifft: pan anwyd ein plentyn cyntaf, teimlais synnwyr o ddiolch aruthrol i Dduw ac roeddwn yn rhyfeddu at y person newydd hwn yr oedd Duw wedi ei roi i ni. Eto, pan fu raid inni symud cartref a gadael ffrindiau annwyl o ganlyniad i swydd newydd fy ngŵr, profais gysur cefnogaeth Duw mewn ffordd real iawn.

Sleid 52 – Bydded eich gair bob amser yn rasol, wedi ei flasu â halen adnod 6

Yn gyntaf, mae'n rhaid cael SGYRSIAU nid MONOLOGAU.

Mae'n rhaid siarad a gwrando!

Beth mae'r frawddeg 'bob amser yn rasol' yn ei awgrymu i'r grŵp?

Dyma rai syniadau: bod yn hael, yn barod i roi, yn ystyriol, yn ddeniadol a chariadus.

Beth mae'r frawddeg 'â halen' yn ei awgrymu?

Beth am eiriau fel blasus, diddorol, cyfareddol, cynhaliol.

Wnaiff pobl ddim gwrando ar yr hyn sydd gennym i'w ddweud wrth inni ei ddweud mewn modd diflas, nawddoglyd, sarhaus neu ymosodol. Rhaid bod yn ofalus WRTH siarad.

Sleid 53 – Ichwi fedru ateb pob un fel y dylid adnod 6

Mae'n bosib y bydd pobl yn gofyn sawl cwestiwn gwahanol, ond yr hyn sy'n sail iddynt gan fwyaf yw'r ddau brif gwestiwn 'Beth ydych chi yn ei gredu?' a 'Pam?'

Mae'n debyg na fyddwn ni'n gallu ateb pob cwestiwn - ac mae'n iawn cydnabod nad oes ateb gennym. Ond mae'n rhaid paratoi ac mae hynny'n golygu ein bod wedi meddwl am ein stori a sut y gallwn ei defnyddio ac mae angen inni allu esbonio'r hyn a gredwn ni.

Trown ein sylw at hyn nesaf.

Cyfeiriwch y grŵp at y daflen wybodaeth a'u hannog hwy i dreulio amser yn edrych arni yn ystod yr wythnos er mwyn meddwl mwy am eu tystiolaeth bersonol.

Sleid 54 – Stori Duw

Ioan 3:16 Do carodd Duw'r byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.

Gofynnwch i'r grŵp ddychmygu eu bod ar awr ginio gyda chyd-weithiwr sy'n gofyn iddynt, "Felly, beth ydych chi yn ei gredu fel Cristion?"

Beth fyddent yn ei ddweud yn y 5 munud sydd ar gael cyn cychwyn yn ôl yn y gwaith?

Gofynnwch i'r grŵp ymrannu'n grwpiau llai i drafod y senario hon.

Caniatewch 5 munud ar gyfer hyn ac yna gofynnwch am adborth.

Yna, cyflwynwch y pwyntiau canlynol:

- Mae cymaint y gallwn ei ddweud.
- Mae amser, lle ac amgylchiad yn cyfyngu'r hyn y gallwn ei ddweud.
- Rhaid felly penderfynu beth sydd fwyaf pwysig i'w ddweud.

Er mwyn paratoi ar gyfer senarios fel hyn, rydym am ystyried y cwestiynau a ganlyn:

- Beth yw hanfodion neges yr efengyl?
- Ydyn ni'n deall yr hanfodion?
- A fedrwn ni rannu'r hanfodion yn eglur?

Dosbarthwch gopïau o Atodiad 2 sy'n cynnwys 3 amlinelliad o neges yr efengyl.

Does dim rhaid dysgu'r amlinelliadau hyn air am air ond wrth fod yn gyfarwydd â hwy, bydd hynny'n gymorth wrth gyflwyno lesu i eraill.

Anogwch y grŵp i ddarllen pob amlinelliad yn ofalus yn eu hamser eu hunain er mwy gweld a yw un o'r amlinelliadau yn apelio mwy atynt. Awgrymwch eu bod yn darllen yr amlinelliad hwnnw nes iddynt ddod yn ddigon cyfarwydd ag o i'w ddefnyddio i rannu'r efengyl gyda rhywun arall.

Cofiwch:

Mae'n fwy na thebyg mai cyfleoedd i rannu RHAN o neges yr efengyl â rhywun arall a gewch chi, felly bydd rhaid ichi benderfynu pa ran sydd fwyaf perthnasol o ran y sgwrs yr ydych chi yn ei gael.

Mae'n hynod o bwysig gwranddo ar yr hyn y mae'r person yn ei ddweud, ar yr hyn y maent yn ei ofyn a chychwyn yn lle bynnag y maent hwy ar hyn o bryd.

Bydd bod yn gyfarwydd â'r amlinelliadau eraill yn caniatáu inni fod yn fwy hyblyg.

Mae'n rhaid i'n geiriau fod yn llawn gras ac wedi eu blasu â halen. Go brin yr enillwn unrhyw un i Grist wrth ennill dadl â hwy!

Efallai y byddai'n syniad trefnu i gyfarfod mewn ychydig wythnosau fel y gall y grŵp dreulio amser yn gweddio dros y naill a'r llall gan 'ymarfer' yr amlinelliad y maent wedi'i ddewis.

Sleid 55 – Stori Duw

Ioan 3:16 *Do carodd Duw'r byd gymaint fel y rhoddodd ei unig Fab er mwyn i bob un sy'n credu ynddo beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.*

Fy Stori

Eu Stori

Ar ddiwedd y gyfres hon, mae'r adnod hon yn ein hatgoffa o'r ffaith wirioneddol ryfeddol ein bod ni, trwy Iesu, wedi dod yn rhan o stori dragwyddol Duw.

Y cyfrifoldeb gwirioneddol ryfeddol sydd arnom yw gwahodd eraill i ddod yn rhan o stori Duw hefyd.

Sleid 56 – Beth os yw rhywun yn awyddus i ymateb i'r gwahoddiad? Beth wedyn?

Actau 2:38 *Pan glywsant hyn, fe'u dwysbigwyd yn eu calon, a dywedasant wrth Pedr a'r apostolion eraill, "Beth a wnawn ni, gyfeillion?" Meddai Pedr wrthynt, "Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant eich pechodau, ac fe dderbyniwch yr Ysbryd Glân yn rhodd."*

Yr ymateb a gafodd Pedr ar ôl ei bregeth ar Ddydd y Pentecost oedd bod llawer iawn o'r gwrandawyr yn holi beth oedd yn rhaid iddynt ei wneud nesaf. Dylem ninnau fod yn barod hefyd i ddweud wrth bobl beth sydd raid iddynt ei wneud nesaf. Os ydym wedi bod yn esbonio'r efengyl i rywun, ni ddylem gael ein synnu os ydynt yn holi, "Beth a wnawn ni?"

Sleid 57 – Gofal. Gweddi. Mwy o ofal!

Mae'n rhaid treulio amser gyda'r person, yn ail esbonio'r efengyl, efallai gan ddefnyddio amlinelliad o Atodiad 2. Mae'n rhaid gwneud hyn yn weddigar ac yn ofalus, gan ddarllen yr adnodau o'r Beibl a holi o hyd a ydynt yn deall a chredu.

Efallai bydd angen gwneud hyn dros amser, nid ar unwaith.

Cewch dreulio amser hefyd yn darllen yr adnodau ar Daflen Wybodaeth 2 gyda hwy.

Anogwch hwy i weddio, gan ofyn am gymorth Duw i ddeall ac i gredu, a'u hannog i ddarllen un o'r Efengylau. Efallai yr hoffech drefnu iddynt siarad gyda'r Gweinidog neu arweinydd arall.

Mae'n bosib y byddwch yn teimlo ei bod yn addas i annog y person i weddio, ar unwaith, mewn edifeirwch a gan geisio maddeuant. Neu, efallai byddwch yn ei h/annog i weddio gartref, ar ei ph/ben ei hun. Dywedwch wrthynt pa mor bwysig yw dweud wrthynt chi, neu rywun arall, os ydynt yn cymryd y cam o wahodd Iesu i fod yn Waredwr.

Cadwch mewn cysylltiad – mae ar y person angen eich arweiniad a'ch cefnogaeth, os ydynt wedi dod i ffydd yng Nghrist neu os yw hyn yn adeg pwysig ar lwybr ei th/daith i ffydd bersonol.

Rydym yn gwybod mai dim ond Duw, trwy ei Ysbryd Glân, sy'n dod â pherson i sylweddoli ei b/fod angen edifarhau a chyffesu wrth eraill ei b/fod wedi dod i gredu yn Iesu. Daliwch ati i weddio a chredu fod y gallu a'r ewylllys ganddo i roi bywyd tragwyddol i'r sawl sy'n galw ar enw'r Arglwydd.

Sleid 58 – Ac yn olaf...

Parhewch i weddio yn ddyfal, yn effro, ac yn ddiolchgar. Gweddïwch yr un pryd drosom ninnau hefyd, ar i Dduw agor inni ddrws i'r gair, inni gael traethu dirgelwch Crist, y dirgelwch yr wyf yn garcharor er ei fwyn. Gweddïwch ar i mi ei amlygu, fel y mae'n ddyletswydd arnaf lefaru. Byddwch yn ddoeth eich ymddygiad tuag at y rhai sydd y tu allan; daliwch ar eich cyfle. Bydded eich gair bob amser yn rasol, wedi ei flasgu â halen, ichwi fedru ateb pob un fel y dylid.
Colosiaid 4:2-6

Anogwch y grŵp i weddio drostynt eu hunain a thros aelodau eraill o'r grŵp gan ddefnyddio Colosiaid 4: 2-6 BOB DYDD.

Trefnwch bod y grŵp yn cyfarfod er mwyn gweddïo, i annog ei gilydd ac i fod yn atebol – efallai bydd yn haws cyfarfod mewn parau neu grwpiau bach.



1. Taflen Wybodaeth 1

– Ga' i ddweud stori wrthyt ti?

1. Beth yw efengylu?

"Ystyr efengylu yw lledaenu'r newydd da bod Iesu Grist wedi marw dros ein pechodau ni ac wedi'i godi o farw yn fyw yn ôl yr Ysgrythur, ac fel Arglwydd sy'n teyrnasu, ei fod yn cynnig maddeuant pechodau a rhodd yr Ysbryd Glân sy'n rhoi rhyddid ysbryd i bawb sy'n edifarhau ac yn credu." *John Stott*

2. Gorchymyn Iesu i 'wneud disgyblion'

Mathew 28:19. *'Ewch gan hynny a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd gan eu bedyddio yn enw'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais i chwi. Ac yn awr yr wyf i gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.'*

Mae'r gorchymyn hwn yn berthnasol i bawb ohonom - rydym oll yn rhan o'r gwaith o wneud 'disgyblion'. Nid gwaith i weinidogion yn unig yw hyn!

3. Ofnau – Pam na allwn ni 'efengylu'?

- Beth fyddai pobl yn feddwl ohona'i petaen nhw'n gwybod 'mod i'n Gristion? 1 Ioan 4: 7-18
- Rwyf wedi rhoi cynnig ar siarad am fy ffydd o'r blaen ond wedi gwneud smonach o bethau. 1 Corinthiaid 2:1-5
- Y drafferth yw does gen i ddim ffrindiau nad ydyn nhw ddim yn Gristnogion!
- Sut mae modd rhannu fy ffydd a minnau'n cael trafferth gyda'r ffydd honno fy hun?
- Fydd dim modd imi ateb eu cwestiynau - ac i fod yn onest, go brin fod ffydd o'r ganrif gyntaf yn apelio at bobl sy'n byw yn yr unfed ganrif ar hugain. 1 Corinthiaid 1:18
- Gwaith y Gweinidog/efengyludd yw efengylu - neu rywun â dawn dweud ganddo/ganddi! Actau 8:1-4 a Rhufeiniaid 10:14.
- I fod yn onest, does dim ots gen i.

4. Peth arweiniad o Colosiaid 4:2-4.

Parhewch i weddio yn ddyfal adnod 2.

I'w Ystyried: A yw gweddi yn ddigon pwysig yn ein golwg ni ac yng ngolwg ein heglwys? Pa gamau ymarferol y gallwn ni eu cymryd i wella hyn?

Parhewch ... yn effro, ac yn ddiolchgar adnod 2.

I'w ystyried: Sut ydym yn dod yn ymwybodol o'n hanghenion? Edrychwch ar 2 Timotheus 3:16. Sut ydym yn dod yn ymwybodol o anghenion eraill? Pa mor ddiolchgar ydw i?

Gofynnwch i Dduw am 'ddrws agored' adnod 3.

I'w ystyried: Os gofynnwn i Dduw am gyfleoedd, a fyddwn ni'n barod i fanteisio arnynt?

Datganwch 'ddirgelwch Crist... yn amlwg' adnod 3.

I'w Ystyried: Beth yw ystyr bywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu? Allwn i esbonio hyn yn glir i rywun arall? Beth allai fy helpu?

5. I'w wneud yr wythnos hon

Beth y mae Duw yn ei ddweud wrthyfych am eich bywyd o weddi trwy'r adnodau hyn?

Treuliwch amser yn ystod yr wythnos yn ail-ddarllen yr adnodau hyn.

Gweddïwch yn ddyddiol yr wythnos hon dros aelodau eraill o'r grŵp.

Gweddïwch dros Gristnogion sydd 'dan glo' heddiw am eu bod wedi 'siarad dros Iesu'. Gallwch gael hyd i wybodaeth ar lein ar: opendoorsuk.org neu barnabasfund.org.uk

2. Taflen Wybodaeth 2 – Cymhelliad

'Y cymhelliad puraf dros efengylu yw gweledigaeth. Ystyr gweledigaeth yw gweld y byd a'r bobl ynddo fel y mae Duw'r Tad yn eu gweld.' *Leighton Ford*.
A ydym ni yn edrych ar y byd a'r bobl sydd ynddo fel y mae Duw yn ei wneud?

1. Gweld pobl fel y mae Duw yn eu gweld

- Luc 15. Beth yw'r prif bwyntiau yn y damhegion hyn?
- Mae pobl ar goll yn y bywyd hwn heddiw.
Luc 19:10; Effesiaid 2:1,12; 4:18; 2 Corinthiaid 4:3-4; Datguddiad 3:17
- Mae pobl yn golledig yn dragwyddol.
Mathew 25:46; Ioan 5:24; Luc 16:19-28; 2 Thesaloniaid 1:9; Jwdas 1:7; Ioan 10:14, 15.

Gwelodd Iesu'r colledig yn yr un modd ag y gwelodd ei Dad hwy, ac roedd yn barod i gynnig ei fywyd fel aberth er mwyn eu ceisio a'u hachub - i'n hachub ni.

Petawn i'n gweld pobl fel y mae Duw'r Tad yn eu gweld, pa wahaniaeth a fyddai hynny yn ei wneud i'm perthynas i â hwy?

2. Ufuddhau i orchymyn Crist

Mathew 28:18-20 *Daeth Iesu atynt a llefaru wrthynt: "Rhoddwyd i mi." meddai, "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchymynion a roddais i chwi. Ac yn awr, yr wyf i gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser."*

Ar gyfer myfyrdod personol a gweddi:

Ydw i o ddifrif ynglŷn â gorchymyn Iesu i fod yn dyst iddo?

Ydw i'n bod yn dyst ffyddlon - ydw i'n 'dweud hi fel y mae hi' neu ydw i wedi addasu'r hyn rwy'n ei ddweud am Iesu er mwyn gwneud y neges yn fwy derbyniol?

3. Cael ein cymell gan Gariad Crist

2 Corinthiaid 5:14. Gorfodi (BCN) neu Cymell (WM) = annog/llethu/cael gafael ynom. Gan fod Iesu wedi marw drosto, rhaid i Paul bellach fyw dros Grist.

1 Ioan 4:7-12 – wedi'i eni o Dduw/Duw cariad yw.

Gwelodd Duw'r byd colledig ac fe'i **cymhellwyd** gan ei natur gariadus i gael hyd i ffordd i achub y byd.

Dyna'r cariad y mae ysbryd Duw yn ei blannu yng nghalonau'r credinwyr; dyma'r cariad sydd yn ein cymell i rannu'r neges am yr lawn aberthol dros eraill.

Ar gyfer myfyrdod personol a gweddi:

A yw cariad Duw yn fy rheoli? Yn fy nghymell? Yn fy llethu?

4. Tosturi ac Angerdd – cofio'r hanfodion

Tosturi = gweld dioddefaint rhywun arall a mynd ati i geisio'i leddfu.

Tosturi Iesu: Marc 1: 40-42; Mathew 9:36; 14:14; 15:32; 20:34; Marc 6:34; 8:2.

Angerdd = 'teimlad hynod o gryf am berson neu beth. Mae angerdd yn **emosiwn** dwys, yn deimlad, brwdfrydedd neu **ddyhead** cryf am rywbeth'. Angerdd Iesu oedd ei angerdd dros y rhai colledig o'i gwmpas. Angerdd Duw oedd, ac yw, achub y colledig.

Cofio'r hanfodion – Sut?

1. Os ydym wedi colli taerineb dros bobl, mae angen cyffesu hyn o flaen Duw a ni ein hunain ac edifarhau.
2. Gofyn i ffrind/grŵp am gymorth a threulio amser yng nghwmni eraill sydd ag angerdd dros efengylu.
3. Treulio amser yn gweddio, ac ystyried yr Ysgrythur a'r pwyntiau a wneir yn y sesiwn hon - gweld pobl fel y mae Duw yn eu gweld, a chael ein cymell gan gariad Crist i ufuddhau a dangos tosturi.
4. Gofyn i'r Ysbryd Glân osod y baich dros eneidiau ar eich calon.
5. Meddwl am Galfaria a sut y dioddefodd Iesu yno oherwydd eich pechodau.
6. Meddwl am y rhyddid ysbryd y mae ei lawn wedi'i sicrhau ar eich cyfer.
7. Meddwl am sut oedd eich bywyd a sut fyddai eich bywyd hebdo.
8. Meddwl am y posibilrwydd mai dyma'r unig dro neu'r tro olaf y cewch chi rannu Crist â rhywun arall.

5. I'w wneud yr wythnos hon

Treuliwch amser yn darllen y rhestr 'Cofio'r hanfodion' gan ofyn i Dduw ddweud wrthy ch beth sydd angen ichi ei wneud/gweddio amdano yn benodol. Gwnewch amser i wneud hyn o ddifrif ac yn onest.

Gwrandewch ar bregeth/podlediad sy'n esbonio gwaith achubol Crist.

Prynwch lyfr a fydd yn eich cynorthwyo i werthfawrogi rhodd ryfeddol Duw o iachawdwriaeth. Er enghraifft, *Come Thirsty* gan Max Lucado (cyhoeddwyd gan Thomas Nelson).

*Mae pregethau ar gael ar lein neu o Siopau Llyfrau Cristnogol,
e.e. sermons.redeemer.com neu mudiad-efengylaid.org*

3. Taflen Wybodaeth 3

– Adrodd fy Stori – Adrodd Stori Duw

'Ar goll, fe'm caed, ac ar fy nos, Fe dorrodd gwawr yn lli.'
John Newton (Cyf. Dafydd Owen).

1. Fy Stori

Pethau da

Pethau heb fod cystal

Does dim straeon ail ddsbarth!

Mae'r modd y mae Duw wedi gweithio yn ein bywydau yn unigryw.

2. SUT i rannu'r efengyl: Colosiaid 4:5, 6

Byddwch ddoeth adnod 5

Gwrando!

Gwnewch yn fawr o bob cyfle: Adegau mewn bywyd

Gwrando! Uniaethu.

Bydded eich gair bob amser yn rasol, wedi ei flasgu â halen adnod 6

SGYRSIAU nid MONOLOGAU. Siaradwch a gwrando!

'Yn llawn gras': 'Wedi'u sawru â halen.' Cymerwn ofal SUT yr ydym yn siarad.

Fel y gallwch wybod sut i ateb pawb adnod 6

'Beth ydych chi yn ei gredu?' 'Pam?'

Cefndir	Credoau	Rhwysrau
Beth sydd wedi siapio profiadau'r person yn y gorffennol?	Beth maent yn ei gredu ar hyn o bryd? Anffyddiwr, agnostig, ysbrydolrwydd oes newydd, ffydd arall	<ul style="list-style-type: none"> • Materion personol • Heb glywed • Brwydr ysbrydol • 'elfennau deallusol' • Profiadau negyddol • Pwysau diwylliannol • Camsyniadau • Amharodrwydd

Mwy o syniadau

Canolbwyntio ar Dduw: Gwnewch yn siŵr fod rôl Duw yn cael ei fynegi'n gryf yng nghalon eich stori. Sut mae gwneud hynny heb swnio'n rhy 'bregethwrol'? Mae'n rhaid sicrhau ein bod yn adrodd ein stori heb geisio perswadio'r person arall mai dyma'r stori a ddylai berthyn iddynt hwythau. Dylai'r iaith gynnwys 'fy' a 'fi', nid 'ti'.

Pethau i'w hosgoi: jargon, gor-ddweud, gormod o gynnwys, ail-adrodd, deunydd amherthnasol, rhagdybiaethau cudd, bod yn drahaus, beirniadaeth o eraill.

Ymarfer: Po fwyaf cyfarwydd ydym ni â'n stori, mwyaf hyderus a fyddwn.

Ac wrth fagu hyder, dylem allu ymlacio a gwrando ar y person arall - a bod yn hyblyg yn ein cyflwyniad.

Cofiwch:

- gysylltu eich stori â rhywbeth a ddywed yr unigolyn
- cynnwys darnau eglurhaol o fywyd bob dydd
- gofyn cwestiynau i'r unigolyn ynghylch eu profiad
- byddwch yn dyner a gostyngedig, defnyddiwch hiwmor os yw hynny'n bosib.
- gweddiwch am gyfleoedd i adrodd eich stori a gweddiwch dros unigolion penodol.

3. Stori Duw

Ioan 3:16 *Do, carodd Duw'r byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.*

Beth yw hanfodion neges yr efengyl? Ydym ni yn deall yr hanfodion? Ydym ni yn gallu rhannu'r hanfodion yn glir? Ymglyfarwyddwch â'r Efengyl - gan ddefnyddio amlinelliad Atodiad 2.

Stori Duw = Fy Stori i = Eu Stori hwy

Rydym eisoes yn rhan o stori dragwyddol Duw. Ein cyfrifoldeb ni yw gwahodd eraill i ddod yn rhan o stori Duw hefyd.

4. Beth os yw rhywun yn awyddus i ymateb i'r gwahoddiad? Beth wedyn?

Gofal: Treuliwch amser gyda'r person, yn ail esbonio'r efengyl, efallai gan ddefnyddio amlinelliad o Atodiad 2. Gwnewch hyn yn weddigar ac yn ofalus, gan ddarllen yr adnodau o'r Beibl a holi o hyd a ydynt yn deall a chredu. Efallai y bydd angen gwneud hyn dros amser, nid i gyd ar unwaith.

Defnyddiwch yr adnodau canlynol hefyd:

Ein cyflwr heb Grist: Rhufeiniaid 3:23; Eseia 53:6

Ein hangen i gredu'r efengyl: Actau 16:30,31; Ioan 3:36

Ein hangen i edifarhau: Luc 13:3; Eseia 55:7

Ein hangen i dderbyn Crist yn Waredwr:

Ioan 3:16; Datguddiad 3:20; 1 Ioan 5:12, 13.

Ein hangen i gyffesu Iesu yn Arglwydd ac i gyfri'r gost o'i ddilyn:
Rhufeiniaid 10:9,10; Marc 8:34, 36, 37.

Gweddi: Anogwch nhw i weddio, gan ofyn am gymorth Duw i ddeall ac i gredu, a'u hannog i ddarllen un o'r Efengylau. Efallai yr hoffech drefnu iddynt siarad gyda'r Gweinidog neu arweinydd arall.

Parhewch i ofalu: Cadwch mewn cysylltiad – mae gan y person angen eich arweiniad a'ch cefnogaeth, os ydyw wedi dod i ffydd yng Nghrist neu os yw hyn yn adeg bwysig ar lwybr ei d/thaith i ffydd bersonol.

Yn olaf

Gweddiwch drosoch eich hun ac aelodau eraill o'r grŵp gan ddefnyddio Colosiaid 4: 2-6 BOB DYDD. Gwnewch ymdrech i gyfarfod ag aelodau'r grŵp, i annog eich gilydd ac i fod yn atebol.

Atodiad (1)

Sgets i'w defnyddio yn Sesiwn 3

Mae George yn Gristion brwd. Fydd o ddim yn fodlon tan y bydd pawb wedi eu hennill i'r ffydd. Dydi Mark ddim yn gapelwr - ond eto mae ganddo beth cydymdeimlad â Christnogaeth.

Mark: Bore da, George. Bore braf hefyd.

George: Ti'n llygad dy le. Dyma'r dydd a wnaeth yr Arglwydd. 'Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch.'

Mark: Wel ia - os ti'n dweud. Ar fy ffordd i nôl y papur. Wn i ddim pam dwi'n trafferthu wir. Mae'r newyddion wastad yn rhoi'r felan i mi.

George: Yn union! Dyna mae'n ei wneud. Does ond un darn o newyddion da yn fy marn i. Mae hwnnw i'w weld yn y bedwaredd efengyl: 'Do carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol' - Ioan 3:16!

Mark: Fel y d'wedais i o'r blaen George, os wyt ti'n dweud.

George: Ond nid fi sy'n dweud. Y Llyfr Mawr a'r Arglwydd sy'n dweud.

Mark: (Yn edrych ar ei wats) Iesgob annwyl, edrych ar yr amser. Rhaid imi ei throï hi!

George: Dyna'r broblem heddiw. Does gan bobl ddim amser i Dduw. Ond un dydd fe fydd ganddyn nhw wrth gwrs. Ond erbyn hynny bydd hi'n rhy hwyr 'Wele, dyma'r awr, dyma ddiwrnod iachawdwriaeth.' Wyt ti'n credu hynny Mark?

Mark: Dwi ddim yn siŵr 'mod i hyd yn oed yn credu yn Nuw, a dweud y gwir wrthot ti.

George: Yn ôl y Beibl, mae'r gŵr ffôl wedi dweud yn ei galon, 'Does dim Duw'.

Mark: Wyt ti 'ngalw i'n ffôl?

George: Nid y fi, Mark. Duw ei hun. Ei eiriau o'i lyfr.

Mark: Wel, os wyt ti am fynd yn bersonol hefo hyn, mi fydda i'n onest hefo ti. Fel dwi'n ei gweld hi, ti yw'r un ffôl. Yn credu'r rwtsh yna am Dduw, nefoedd ac uffern, ac ati.

George: Rwtsh i ti efallai. Dyma ddywedodd yr Apostol Paul wrth y bobl yng Nghorinth, 'Oblegid y gair am y groes, ffolineb yw i'r rhai sydd ar lwybr colledigaeth, ond i ni sydd ar lwybr iachawdwriaeth, gallu Duw yw.' Un Corinthiaid un, adnod deunaw dwi'n meddwl. Felly, os wyt ti'n meddwl mai rwtsh yw'r cyfan Mark, mae hynny'n arwydd dy fod ar dy ffordd i uffern. A dyna'r gwahaniaeth rhyngot ti a fi. Mae hynny'n llawer pwysicach na'r penawdau yn y papurau heddiw, coelia di fi.

Mark: Wel, os ydi hi'n ddewis rhwng 'mhapur i a dy bregethu di, dwi'n gwybod lle mae 'mhleidlais i'n mynd. Papur a phaned braf o de i mi - a 'fory, mi fydd hi'n fater o guddio os dwi'n dy weld ti'n dod i 'nghyfeiriad i. Hwyl fawr.

George: Fe elli di guddio oddi wrtha' i ond fydd dim modd iti guddio oddi wrth Dduw. Doedd Adda ddim yn gallu.

(Mark yn cerdded i ffwrdd â'i ben yn yr awyr)

Atodiad (2) – Y Bont

Yn y dechrau...

...roedd gan bobl berthynas â Duw yn seiliedig ar gariad, cyfeillgarwch ac ymddiriedaeth.



'Gwelodd Duw y cwbl a wnaeth, ac yr oedd yn dda iawn.' (Genesis 1:31)

Ond pechu yn erbyn Duw fu ein hanes...

... ac fe chwalwyd y berthynas.




Mae pechod yn ein gwahanu oddi wrth Dduw.



'Ond eich camweddau chwi a ysgarodd rhyngoch a'ch Duw..' (Eseia 59:2)

Ni all ein hymdrechion ni ein cymodi â Duw.




'Aethom i gyd fel peth aflan, a'n holl gyfiawnderau fel clytiau budron.' (Eseia 64:6)

Mae pechod yn arwain at farn a marwolaeth.




'Y mae pechod yn talu cyflog, sef marwolaeth.' (Rhufeiniaid 6:23)

Mae Iesu wedi codi pont rhyngom â Duw.



Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab.' (Ioan 3:16)

Gallwn ymateb i'r hyn y mae Iesu wedi'i wneud gan gefnu ar ein pechodau a derbyn maddeuant a bywyd tragwyddol.



'... ond rhoi yn rhad y mae Duw, rhoi bywyd tragwyddol yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.' (Rhufeiniaid 6:23)

Pum bys – amlinelliaid 5 pwynt

Gellir cofio'r model hwn trwy amlinelliaid pum pwynt syml - un pwynt ar gyfer pob bys o'r llaw.

1. Duw (Genesis 1:1; Philipiaid 2:9-11)

- Mae Duw yn bodoli. Mae'n Dduw cariadus sy'n ewyllysio'r gorau ar gyfer ein bywydau.
- Duw wnaeth y byd ac ef sy'n ei reoli. Fe'n crëwyd ni ar gyfer cyfeillgarwch ag ef.
- Ni pheiddiodd Duw â'n caru ni a phobl eraill yn y byd.
- Er mwyn inni dderbyn y gorau yn ein bywydau, sicrhodd Duw fod ei Fab Iesu yn arweinydd i'r byd a phopeth ynddo.

2. Pobl (Rhufeiniaid 3:12; 1 Ioan 3:4)

- Dagrau pethau yw ein bod oll wedi cefnu ar Dduw. Dyna pam nad ydym yn derbyn y gorau ar gyfer ein bywydau.
- Mae rhai ohonom wedi gwneud hynny'n fwriadol, gan wthio Duw o'n bywydau.
- Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi gwneud hynny'n oddefol, gan ystyried nad yw Duw yn bwysig neu nad yw Duw yno o gwbl. Ond pa un a yw hynny trwy fod yn ddig neu drwy beidio â malio, rydym wedi gwrthod cariad Duw a'i reolaeth ef dros ein bywydau.
- Mae'r canlyniadau yn glir i bawb eu gweld: perthynas doredig â Duw, â phobl eraill, â ni ein hunain yn ogystal ag â'r ddaear yr ydym yn byw arni.

3. Iesu (Actau 17:30; 1 Pedr 3:18)

- Diolch i'r drefn dydy Duw ddim wedi ein gadael yn y cawllach hwn. Mae'n gwneud yr hyn y byddech yn disgwyl iddo'i wneud o dan yr amgylchiadau.
- Daeth Iesu i'r byd hwn i ddangos i ni sut un yw Duw ac i adfer ein perthynas doredig â Duw. Bu farw ar y groes gan gymryd arno'i hun ganlyniadau ein pechod ni.
- Mae Duw yn ein galw ni yn ôl ato, ac i beidio â'i wthio o'n bywydau fel y gellir adfer ein perthynas ag ef.

4. Beth os na wnaf i hynny? (2 Thesaloniaid 1:8-9)

- Beth fydd yn digwydd os na wnaf i dderbyn cynnig Iesu o faddeuant a chychwyn newydd?
- Byddai'n drueni mawr bod yn y sefyllfa honno. Byddwn yn colli'r gorau y mae Duw wedi'i gynllunio ar ein cyfer.
- Yn y pendraw, pan fyddwn yn marw, byddwn yn dod 'wyneb yn wyneb' â Duw. Byddwn wedyn yn darganfod bod Iesu yn iawn. Byddwn yn wynebu ei Farn ef.
- Byddwn yn colli'r cyfle i fyw mewn cyfeillgarwch â Duw yn dragwyddol.

5. Beth os gwnaf i hynny? (Ioan 3:16)

- Beth fydd yn digwydd os gwnaf i dderbyn cynnig Iesu a dweud, 'Ddylwn i erioed fod wedi cefnu arnat ti. Dwi am fyw fy mywyd fel dy ffrind ac o dan dy awdurdod di'? Yn rhyfeddol, bydd Duw yn ein trin heb gymryd arno ein bod wedi'i wthio o'r neilltu yn y lle cyntaf. Mae hyn yn newydd da iawn.
- Mae Duw yn addo maddeuant i ni am yr holl bethau yr ydym wedi'u gwneud o'u lle, cychwyn newydd gydag ef yn ffrind ac arweinydd i ni, a dyfodol sicr gydag ef yn y nefoedd.
- Rydym hefyd yn derbyn cryfder newydd i fyw fel y bydd Duw am inni fyw (trwy'r Ysbryd Glân). Fe ddown yn rhan o deulu o bobl sydd wedi ymroi i anrhydeddu Duw sef yr eglwys.
- Mae'n cynnig ystyr a phwrpas mewn bywyd i ni.
- Cynigir y rhain oll fel anrheg i'w derbyn, nid fel gwobr i'w hennill.

Gwneud/Wedi'i Wneud: Crefydd a Christnogaeth

Mae'r amlinelliad hwn yn hynod ddefnyddiol ar gyfer y rhai hynny sydd â rhywfaint o gefndir Cristnogol ganddynt, ac fe ellid ei gyflwyno'n hawdd fel cwestiwn mewn sgwrs briodol, er enghraifft: 'Beth yw'r gwahaniaeth rhwng crefydd a Christnogaeth yn eich barn chi?'

- Wedi gofyn y cwestiwn, tynnwch linell i lawr canol y dudalen a sgwennu 'GWNEUD' ar ben un golofn a 'WEDI'I WNEUD' ar ben y golofn arall. Llenwch y colofnau wrth siarad.
- Gofynnwch, 'Beth yn eich tyb chi y mae'n rhaid inni ei wneud i fod yn ffrind i Dduw neu sicrhau ein bod yn cael mynd i'r nefoedd?' Wrth i'r person ymateb gydag awgrymiadau (gweddïo/mynd i'r eglwys, ac ati) cofnodwch y rhain o dan 'GWNEUD'. Pan fo nifer o bethau wedi'u crybwyll, gofynnwch, 'A fyddai'n bosib gwneud y pethau hyn heb fod yn Gristion?' Helpwch nhw i weld mai'r ateb yw 'BYDDAI'. Awgrymwch mai 'cael ei wneud gan bobl' y mae crefydd.
- Cyfeiriwch at y golofn 'WEDI'I WNEUD'. Esboniwch fod Cristnogaeth yn wahanol iawn - mae'n 'deillio o Dduw'. Canolbwyntiwch ar waith Crist drosom ar y groes a'r sicrwydd y gall hyn ei roi i ni. Pwysleiswch nad oes unrhyw un yn haeddu bendithion fel hyn, ond bod Duw yn ei gariad a'i drugaredd rhyfeddol wedi gwneud hyn yn bosib trwy Iesu.

Gwneud – Crefydd	Wedi'i wneud – Cristnogaeth
Gwneud pethau gweddïo mynd i'r eglwys bod yn berson da rhoi i elusennau cael eich bedyddio cael eich derbyn fel aelod	Pethau sydd wedi'u gwneud Nid beth sydd angen i ni ei wneud ond beth y mae Crist wedi'i wneud drosom ni.
Ein gwaith ni	Gwaith Crist
Elw	Rhodd
Ceisio neu weithio er mwyn ennill gwobr	Bu farw drosom er mwyn rhoi bywyd tragwyddol i ni Mae rhodd Crist am ddim.
Euogrwydd	Diolchgarwch
Cael eich cymell gan euogrwydd	Ymateb o ddiolchgarwch
Wedi'i wneud gan bobl	Wedi'i roi gan Dduw
Ceisio	Ymddiried

